

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, mae cyfradd achosion Cofid yn uchel yn lleol ac mae hyn, fel sy'n anochel, wedi cael effaith andwyol ar lefelau staffio ym Mryn Tawe yn ogystal ag ar gyfraddau absenoldeb disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ledled yr Awdurdod Lleol bellach yn y sefyllfa lle'r oedd nifer y disgyblion sy'n profi'n bositif am Cofid o fewn wythnosau cyntaf y tymor yn fwy na neu hyd yn oed wedi dyblu'r nifer a oedd wedi gwneud hynny ar draws y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae'r un peth yn wir, mewn llawer o'n hysgolion, am y staff addysgu a chymorth.

Mae'n bwysig ein bod yn agored ac yn dryloyw gyda chi yn y cyfnod digynsail hwn. **Ar hyn o bryd rydym yn gorfod asesu'n ddyddiol a yw'n ddiogel rhedeg yr ysgol yn y ffordd arferol.** Er ein bod wedi gwneud a gweithredu cynlluniau i leihau effaith absenoldeb staff uwch na'r arfer, mae effaith Cofid yn sylweddol iawn ar hyn o bryd. Mae hyn, wrth gwrs, ar ben y rhesymau arferol a allai effeithio ar lefelau staffio, na ellir rhagweld na chynllunio ar eu cyfer, megis profedigaeth sydyn neu salwch.

Rydym wedi asesu'r sefyllfa bresennol a'n gallu i weithredu'n ddiogel fel ysgol ac rydym wedi cytuno na fyddwn yn gallu rhedeg yn ddiogel os:

- Mae 20% neu fwy o'n staff addysgu yn absennol ar unrhyw un adeg, a/ neu
- Mae cyfran fawr o'r staff sy'n hanfodol i redeg yr ysgol yn ddiogel yn absennol (e.e. staff y safle, marsialiaid tân, staff diogel...)

Yn yr achos hwn, byddwn yn eich hysbysu bod y pwynt tyngedfennol hwn wedi'i gyrraedd ac y bydd angen gofyn i un neu fwy o'n grwpiau blwyddyn i aros gartref. Darperir gwaith i ddisgyblion ei gwblhau yn ystod y cyfnod hwn. Cysylltir yn unigol â disgyblion sy'n cael eu cefnogi'n helaeth gan ein staff bugeiliol ac yn yr Uned Gwella i drefnu cefnogaeth barhaus.

Byddwch yn ymwybodol nad yw hwn yn benderfyniad a fydd yn cael ei wneud yn ysgafn. Mae pob ysgol am allu rhedeg mewn amgylchiadau mor agos at normalwydd â phosibl. Yn anffodus, y gwir amdani yw, er ein bod yn symud tuag at 'normalwydd' mewn sawl ffordd, fod y firws yn dal i fod gyda ni ac mae'r cyfraddau achos yn adlewyrchu hynny'n lleol. Bydd pob dull posibl o osgoi cau'n rhannol yn cael ei archwilio'n llawn, ond mae argaeledd staff cyflenwi yn fater o bwys gan fod pob ysgol yn yr un sefyllfa a ni.

Mae ysgolion uwchradd ledled ein Hawdurdod Lleol yn anfon llythyr tebyg at yr un hwn, gan ein bod i gyd yn gytûn ei bod yn bwysig i bob rhiant gael gwybod cyn cynllunio wrth gefn a bod yn ymwybodol mai ein nod ar y cyd yw sicrhau diogelwch yr holl bobl ifanc yr ydym yn eu gwasanaethu yn ein hysgolion. Os byddwn yn cyrraedd pwynt lle na ellir gwarantu hyn, byddwn felly'n gweithredu cau rhannol (un neu fwy o grwpiau blwyddyn yn dysgu o bell) fel yr amlinellir uchod ac mewn cytundeb â'r Awdurdod Lleol. Os a phryd y byddwn yn cyrraedd y pwynt hwn, byddwch yn derbyn rhagor o wybodaeth am y dyddiadau, y trefniadau ac ati, p'un a yw grŵp blwyddyn eich plentyn yn un o'r rhai yr effeithir arnynt ai peidio.

Fel y gwyddoch, mae'r uchod i gyd yn cael eu hystyried oherwydd y realiti presennol yw bod Covid yn effeithio ar lawer o ddisgyblion, llawer o aelodau eu teulu a llawer o'r staff. Dymunwn y bod i bob un ohonynt yn dychwelyd i iechyd da yn gyflym ac yn llawn, a diolchaf ichi am eich cefnogaeth barhaus yn y cyfnod heriol hwn.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies

